



DATGANIAD I'R WASG 3 Mehefin 2020

Adroddiad Sefydliad y Merched yn hyrwyddo a dathlu cyfraniad aelodau SyM ar draws Cymru mewn helpu ymdrin â'r dirywiad mewn coed trefol

Wrth i nodi Wythnos Gwirfoddolwyr (1 - 7 Mehefin) a Diwrnod Amgylchedd y Byd (5 Mehefin), mae adroddiad a gyhoeddwyd gan Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched (FfCSyM)-Cymru wedi dangos y cyfraniad enfawr mae aelodau SyM ar draws Cymru wedi gwneud i ymdrin â'r dirywiad mewn coed trefol trwy gymryd rhan yn y Prosiect Treftadaeth Naturiol Coed FfCSyM-Cymru. Cyfrannodd aelodau SyM 10,080 o ddiwrnod i'r prosiect sy'n cyfateb i werth ariannol o £1,984,300.

Sefydlwyd y Prosiect Treftadaeth Naturiol Coed yn Medi 2017, yn dilyn grant o £48,100 wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, i ysbrydoli a chefnogi aelodau i weithredu i gadw, gwarchod a phlannu coed trefol.

Cafodd pob ffederasiwn yng Nghymru a dros 200 o SyM eu symbylu i arolygu, arsylwi, mesur a phlannu coed ynghyd â chreu gwaith crefft a chelf a ysbrydolwyd gan goed. Mae'r adroddiad prosiect yn cynnwys tudalennau yn gysylltiedig â chyfraniad pob ffederasiwn gan gynnwys astudiaethau achos o weithgareddau SyM. Mae'r adroddiad yn hyrwyddo'r partneriaethau a ddatblygwyd mewn cymunedau, canlyniadau'r Arolwg Coed Gerddi a Strydoedd a chanlyniadau'r prosiect.

Recriwtiwyd a hyfforddwyd Cydgysylltwyr Ffederasiynau Gwirfoddol i gefnogi ac ysbrydoli SyM yn eu ffederasiynau i ymgysylltu yn y prosiect. Rhoddodd y Cydgysylltwyr Ffederasiynau Gwirfoddol 3,122 o ddiwrnodau i'r prosiect trwy drefnu diwrnodau hyfforddiant ar gyfer eu SyM, hyrwyddo'r prosiect ar draws eu hardal a datblygu partneriaethau.

Mae uchafbwyntiau'r prosiect yn cynnwys yr isod:-

- Arolygodd aelodau SyM mwy na 5,000 o goed;
- Plannodd aelodau SyM tua 6,000 o goed yn eu cymunedau;
- Sefydlwyd cysylltiadau gyda mwy na 90 o grwpiau cymunedol;
- Nodwyd 91 o wahanol rywogaethau o goed gan aelodau SyM a gymerodd ran yn yr 'Arolwg Coed Gerddi a Strydoedd';
- Trefnwyd 80 o weithgareddau / gweithdai gan y Cydgysylltwyr Ffederasiynau Gwirfoddol.

Dywed Mair Stephens, Cadeirydd FfCSyM-Cymru:-

“Mae gwarchod yr amgylchedd wedi bod wrth galon SyM erioed. Deilliodd y prosiect hwn o bryder aelodau ynghylch y bygythiad mae newid hinsawdd yn ei achosi i'n cynefinoedd naturiol, a'r heriau y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn debyg o'u hetifeddu: planed gynhesach a mwy caotig. Un o'r llu o bryderon oedd gan yr aelodau oedd colli coed trefol. Yng Nghymru, mae canran syfrdanol o 73 y cant o ardaloedd trefol wedi colli coed ers 2010.

“Wrth i ni nodi Wythnos Gwirfoddolwyr a Diwrnod Amgylchedd y Byd dydd Gwener yma, mae ein hadroddiad prosiect yn gyfle i ddiolch i'n haelodau am yr ymroddiad a brwdfrydedd maent wedi dangos, trwy gymryd camau ymarferol a phenderfynol, o warchod a chyfoethogi ein tirwedd naturiol i'r cenedlaethau sydd i ddod.”

DIWEDD

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Rhian Connick r.connick@nfwi-wales.org.uk neu Kelly Rosser k.rosser@nfwi-wales.org.uk ar 029 2022 1712.

Nodiadau i olygyddion:

1. Sefydliad y Merched (SyM) yw'r sefydliad mwyaf i ferched yn y DU gyda thua 210,000 o aelodau mewn dros 6,000 o Sefydliadau. Yng Nghymru, mae 16,000 o aelodau yn perthyn i 500 o Sefydliadau. Mae SyM yn chwarae rhan unigryw drwy alluogi merched i ddatblygu sgiliau newydd, cynnig cyfleoedd i ferched ymgyrchu ar faterion sy'n bwysig iddynt hwy ac i'w cymunedau, ac yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau i aelodau cymryd rhan ynddynt. Ewch i www.thewi.org.uk am fwy o wybodaeth.
2. Ariannwyd y Prosiect Treftadaeth Naturiol Coed trwy grant o £48,100 wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.
3. Mae'r adroddiad prosiect ar gael i lawrlwytho oddi ar wefan FfCSyM:- <https://www.thewi.org.uk/wi-in-wales/current-projects/natural-heritage-tree-project-wales?lang=cy>